NYAS

Ymwelwyr Annibynnol

Mae NYAS yn darparu ymwelwyr annibynnol i ymweld, i gynghori ac i fod yn gyfaill i bobl ifanc sy'n cael gofal gan yr awdurdod lleol ac sydd heb lawer neu ddim cysylltiad gyda'u teuluoedd.

Fforwm Pobl Ifanc

Mae'r fforwm yn gyfrwng i ymgynghori gyda phobl ifanc ac yn ffordd iddyn nhw allu mynegi eu barn ar faterion lleol a chenedlaethol.

Digwyddiadau i Blant

Ymgynghoriad a gwybodaeth sy'n galluogi plant i ddweud am eu profiadau ac i ddysgu am y gwasanaeth.

Hyfforddiant ac Ymgynghoriad

Mae hyfforddi a datblygu staff yn chwarae rhan bwysig iawn o ran cyflwyno gwasanaethau o ansawdd uchel i blant a phobl ifanc. Mae NYAS wedi'i gofrestru gyda Chymdeithas y Gyfraith a'r Rhwydwaith Coleg Agored i ddarparu cyrsiau achrededig sy'n cynnwys:

Cyflwyniad i Eiriolaeth ar Ran Plant a Phobl Ifanc

Cwynion a Chynrychiolaeth

Hyrwyddo Hawliau Plant mewn Gofal Preswyl

Fframwaith Cyfreithiol Eiriolaeth

Eiriolaeth gyda Phlant ag Anabledd

Hyfforddiant pwrpasol a gweithdai ar gael wrth wneud cais.

Am ragor o fanylion cysylltwch â:

Janet.Owen@nyas.net

NYAS

Cyhoeddiadau

Cynrychioli Plant

Cylchgrawn amlddisgyblaeth chwarterol ar gyfer pob proffesiwn sy'n ymwneud â hawliau a lles plant.

Clwb Ieuenctid Ar-lein

www.onlineyouthclub.org

Gwefan ryngweithiol ar gyfer pobl ifanc, i'w hannog i fynegi barn a defnyddio stafell sgwrsio NYAS yn ddiogel.

Gwybodaeth Arall

Mae rhagor o daflenni NYAS ar gael, sef Gwasanaethau Cyfreithiol NYAS, Cyfranogiad Personau Ifanc NYAS, Hyfforddiant NYAS a Gweithdrefn Gwynion NYAS.

Gwasanaeth Eiriolaeth Ieuenctid Cenedlaethol
99-105 Argyle Street,
Birkenhead, Wirral, Merseyside, CH41 6AD
Rhif ffôn 0151 649 8700
E-bost help@nyas.net
Gwefan www.nyas.net

RHIF FFÔN AM DDIM I BOBL IFANC

0800 616 101

NYAS

Gwasanaethau a Gwybodaeth Gyffredinol

Ffoniwch ni am gyngor cyfreithiol cyfrinachol a chynrychiolaeth ar

0151 649 8700

Cyflwyniad

Elusen yn darparu gwasanaethau cymdeithasol-gyfreithiol yn y Deyrnas Unedig yw'r Gwasanaethau Eiriolaeth Ieuenctid Cenedlaethol (NYAS). Mae'n cynnig gwybodaeth, cyngor, eiriolaeth a chynrychiolaeth gyfreithiol i blant a phobl ifanc 0-25 oed, trwy rwydwaith o dros 150 o eiriolwyr. Mae NYAS hefyd yn Wasanaeth Cyfreithiol Cymunedol.

Ethos y Gwasanaeth

Mae NYAS yn ymroi i weithio tuag at weithredu Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn, ac yn arbennig Erthygl 12 sy'n ymwneud â hawl pob person ifanc i ymgynghoriad ynghylch pob mater sy'n effeithio arnynt.
Mae NYAS yn anelu i ddarparu a datblygu ei wasanaethau trwy gyfranogiad pobl ifanc sy'n ymwneud â'r sefydliad ar bob lefel.

I bwy ydym ni'n cynnig gwasanaethau?

Mae NYAS yn cynnig gwybodaeth annibynnol a chyfrinachol, cyngor, eiriolaeth a chefnogaeth i bobl ifanc sydd am fynegi eu dymuniadau a'u teimladau mewn achosion gweinyddol neu gyfreithiol, neu mewn unrhyw amgylchiadau eraill, pan wneir penderfyniadau ynglŷn â'u bywydau.

Mae NYAS yn rhoi plant a phobl ifanc yn gyntaf ac yn cynnig help i blant:-

Mewn angen neu anobaith
Mewn trafferth
Mewn gofal neu'n gadael gofal
Sy'n ddigartref
Â phroblemau yn yr ysgol
Â'u rhieni wedi gwahanu
neu'n ysgaru
Sydd â neb i wrando arnyn nhw

Mae NYAS yn cynnig gwasanaeth lle caiff pobl ifanc gyfle i ddefnyddio gwybodaeth a phrofiad ein heiriolwyr a'n cyfreithwyr i oleuo eu proses o wneud penderfyniadau.

Sut i Gael Gwybodaeth , Cyngor, Eiriolaeth neu Gynrychiolaeth Gyfreithiol

Mae pob gwasanaeth a ddarperir gan NYAS yn annibynnol a chyfrinachol. Mae gwybodaeth, cyngor ac eiriolaeth i blant a phobl ifanc, gan gynnwys cyngor a chynrychiolaeth gyfreithiol ar gael trwy gysylltu â ni ar:

Llinell gymorth i bobl ifanc

0800 61 61 01

Llun – Gwener 8.00am – 8.00pm
Sadwrn 10.00am – 4.00pm
Gallwch adael neges ar unrhyw adeg arall a byddwn yn ymateb yn gyflym.

Rhif ffôn y swyddfa:

0151 649 8700

Neu ewch i'n gwefan:

www.nyas.net

Bydd ein tîm derbyn yn delio â phob cais am help ac yn cysylltu eiriolwr â'r achos os yn berthnasol. Mae'r gwasanaethau'n cynnwys:

Gwybodaeth Gyfreithiol, Cyngor a Chynrychiolaeth

Mae tîm cyfreithiol mewnol NYAS yn darparu gwasanaethau cyfreithiol i bobl ifanc.

Eiriolaeth ar sail Materion Penodol

Cysylltir eiriolwyr penodol mewn ymateb i geisiadau penodol am gyngor, neu eiriolaeth ar gyfer gwaith un-wrth-un gyda phlentyn neu berson ifanc.

Eiriolaeth mewn Unedau Preswyl

Mae eiriolwyr yn ymweld ag unedau preswyl yn rheolaidd i gyfarfod a rhyngweithio gyda phobl ifanc a gwrando ar unrhyw bryderon a siarad â nhw yn uniongyrchol.

Cymorth gan Weithwyr Achos

Mae NYAS yn cynnig gweithwyr achos i ymgymryd ag adroddiadau gwaith cymdeithasol annibynnol ar gyfer pobl ifanc sy'n destun anghydfod ynglŷn â'u cartref swyddogol neu hawliau cyswllt. Gall gweithwyr achos weithio'n annibynnol neu gyda chyfreithiwr o dîm cyfreithiol NYAS.

Personau Annibynnol

Mae personau annibynnol yn darparu gwybodaeth, cyngor ac eiriolaeth i bobl ifanc mewn Canolfannau Hyfforddi Diogel.

www.nyas.net